# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Mai 2018

Amser: 08.30 - 08.47

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 16 Mai 2018 –**

- Dadl ar Bolisi Urddas a Pharch y Cynulliad (30 munud)

**Dydd Mercher 6 Mehefin 2018 –**

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)

### 3.4 Dadl ar Gynigion Deddfwriaethol Aelodau: dethol cynnig ar gyfer dadl

- Detholodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**NNDM6720 Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnig am Fil cynllunio gwefru cerbydau trydan.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gosod canllawiau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, boed hwy yn adeiladau cyhoeddus neu yn dai;

b) sicrhau bod adeiladau newydd yn gorfod cynnwys pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan;

c) ei gwneud hi’n haws i bobl allu defnyddio cerbydau trydan er mwyn lleihau allyriadau carbon.

# 4 Rheolau Sefydlog

## 4.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Cytunodd Rheolwyr Busnes i ganolbwyntio am y tro ar faterion Rheol Sefydlog sy'n codi ynghylch Brexit, gan ddychwelyd i adolygiad ehangach o'r Rheolau Sefydlog maes o law.

Hefyd, cytunodd Rheolwyr Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gofyn am ei farn ynghylch cyfansoddiad y pwyllgor hwnnw yng ngoleuni'r posibiliad y bydd ganddo rôl sifftio o ran offerynnau statudol yn ogystal â chraffu ar ddeddfwriaeth sylfaenol.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Cais gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ymestyn amser ei gyfarfod

Cytunodd Rheolwyr Busnes i'r cais.